**Cofnodion cyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 5 Rhagfyr 2024**

**Yn bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Drwy wahoddiad:** Maria Richards (Llywodraeth Cymru);
Gareth Bevington (Llywodraeth Cymru)

**Gweithredol:** Heather Anstey-Myers, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro;
Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol;
Laura Pickup, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau;
John Richards, Arweinydd ar ran Cynhyrchwyr a Phroseswyr;
Jason Craig, Arweinydd Datblygu'r Farchnad;
Russ Thomas, Arweinydd Datblygu Polisïau;
Jo Horder, Ysgrifenyddiaeth.

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd, yn enwedig Gareth Bevington, Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiadau a'r cyfarfodydd allweddol yr oedd wedi'u mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd:

09 Hydref – Cyfarfod James Evans ac Andrew RT Davies

10 Hydref – Cyfarfod Sam Kurtz

17 Hydref – Cyfarfod Cyllid Llywodraeth Cymru

20/21 Hydref – SIAL, Paris

20 Hydref – Pwyllgor Taliadau

05 Tachwedd – Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd, staff Hybu Cig Cymru

11 Tachwedd – Cyfarfod Llywodraethu Llywodraeth Cymru

14 Tachwedd – Cynhadledd HCC

25/26 Tachwedd – Ffair Aeaf Frenhinol Cymru

29 Tachwedd – Pwyllgor Taliadau

02 Rhagfyr – Panel recriwtio Prif Swyddog Gweithredol

Roedd y Cadeirydd hefyd wedi mynychu rhagor o gyfarfodydd, gan gynnwys rhai a gynhaliwyd gan y Bwrdd Crwn Gweinidogol a'r Panel Adolygu Atafaelu Carbon.

Nodwyd, yn dilyn y gwaith a wnaed gan y grwpiau hyn, bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cyhoeddi cynllun amlinellol wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod y Ffair Aeaf.

Cydnabu'r Cadeirydd yn ffurfiol waith staff HCC mewn perthynas â Chynhadledd lwyddiannus iawn HCC, yn ogystal â'u presenoldeb yn y Ffair Aeaf. Diolchodd iddynt ar ran y Bwrdd.

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Anne Dun (HCC); Pip Gill (HCC)

3. **<u>Datganiadau o Fuddiant</u>**

Cyhoeddodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau y byddai'n gadael HCC i ddechrau gweithio gyda phrosesydd yn y sector masnachol ym mis Ionawr, ond ni fyddai'n gweithio ar unrhyw beth masnachol sensitif yn y cyfamser.

4. **<u>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd:</u>**

*a. <u>Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Hydref 2024</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

*b. <u>Cyfarfod diweddaru'r Bwrdd, a gynhaliwyd dros Teams ddydd Mawrth 5 Tachwedd 2024</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

5. **<u>Materion yn codi o Eitemau 4a a 4b uchod</u>**

**<u>Cofnodion dydd Iau 3 Hydref 2024</u>**

<u>Bwletin y Farchnad: Papur ar brotein yn Tsieina</u>

Mae gwaith yn mynd rhagddo. Papur i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

<u>Polisi Aflonyddu</u>

Polisi diweddaredig i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2025.

**<u>Cofnodion dydd Mawrth 5 Tachwedd 2024</u>**

<u>Papur y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach</u>

Mae gwaith yn mynd rhagddo. Cyflwyno'r papur i'r Bwrdd cyn ei gyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach ym mis Mawrth 2025.

<u>Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd – Aelodau Staff</u>

Nodwyd bod Arweinwyr Adrannau, ynghyd â'r adran Adnoddau Dynol, wedi bod yn edrych ar ganlyniadau'r diwrnod, yn ogystal ag ystyried beth sydd ei angen o ran polisïau, dulliau cyfathrebu, a chymorth i staff.

6. **<u>Ystyried yr adolygiad 6 mis o Gynllun Gweithredol HCC 2024-25 - Perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)</u>**

Cyflwynodd yr Arweinydd ar ran Cynhyrchwyr a Phroseswyr yr uchod, gan dynnu sylw at y sefyllfa bresennol o ran y targedau diwedd blwyddyn ym mhob maes busnes.

Nodwyd bod y perfformiad yn erbyn y mesurau DPA mewn sefyllfa resymol ar hyn o bryd. Mae rhai eisoes wedi'u cyflawni, ac mae eraill yn parhau i gael eu monitro, neu bydd canlyniadau'n cael eu mesur yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

O ran DPA ar gyfer cyfathrebu â rhanddeiliaid, nodwyd bod mesurau fel arfer yn cael eu cymryd o arolwg a gynhaliwyd ym mis Ionawr. Ar gyfer 2024-25, roedd HCC wedi cynnig gohirio'r arolwg tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac, ar gyfer blynyddoedd i ddod, datblygu methodoleg i fesur canfyddiadau rhanddeiliaid drwy gydol y flwyddyn, gyda'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn amlach.

Cytunwyd bod hyn yn ffordd dda o weithredu. Bydd papur yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2025.

**Cam Gweithredu: Arweinydd ar ran Cynhyrchwyr a Phroseswyr**

7. **<u>Proses gynllunio ar gyfer Cynllun Gweithredol HCC 2025-26</u>**

Cyflwynodd yr Arweinydd ar ran Cynhyrchwyr a Phroseswyr ddrafft cychwynnol o Gynllun Gweithredol 2025-26 i'w ystyried. Bydd templed gyda ffigurau yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror/Mawrth 2025.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cyfleoedd cyllido a chydweithio yn y dyfodol i wella gallu HCC i gefnogi'r diwydiant cig coch yng Nghymru drwy ymchwil ac astudiaethau peilot. Bydd cyfleoedd yn 2026 pan fydd gwaith yn cael ei gaffael i gefnogi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ond byddai trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd cyn hynny yn ddefnyddiol.

**Cam Gweithredu: Arweinydd Datblygu Polisïau**

**8. <u>Adroddiadau HCC</u>**

*a. <u>Adroddiad cyflawni (HCC 1215)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*b. <u>Ôl-drafodaeth ar bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru, Gorffennaf 21-24</u>*

Gofynnwyd am adborth gan y Bwrdd ynghylch presenoldeb HCC yn y sioe.

Yn gyffredinol, cytunwyd bod presenoldeb HCC wedi'i gyflwyno'n dda a bod y gweithgarwch a'r rhyngweithio â manwerthwyr a chyrff academaidd wedi bod yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, teimlwyd bod llai o bobl wedi ymweld â'r stondin nag arfer, ac efallai na fyddai'r cynllun a'r amserlen newydd wedi bod mor groesawgar i ystod eang o ymwelwyr, yn enwedig heb yr arddangosiadau coginio.

Nodwyd bod yr adnoddau oedd ar gael yn ffactor allweddol wrth ddylunio gweithgareddau'r stondin. Wrth symud ymlaen, mae angen ystyried y nod cyffredinol o ran presenoldeb, y gynulleidfa flaenoriaethol, yr effaith a geisir, cost a budd gwahanol weithgareddau, yn ogystal â ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar nawdd y sioe.

Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer sioe 2025 yn dechrau'n gynnar er mwyn rhoi mwy o amser i ystyried yn llawn yr amcanion allweddol a'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflawni'r rhain.

c. *<u>Derbyn adborth ar bresenoldeb HCC yn y Sioe Addysg Genedlaethol ar 4 Hydref 2024</u>*

Cymerwyd bod y papur wedi'i ddarllen.

Nodwyd bod ymateb cadarnhaol iawn wedi dod i law ynghylch presenoldeb HCC yn y digwyddiad, yn ogystal â'r wybodaeth a'r adnoddau a ddarparwyd i'r rhai a oedd yn bresennol. Roedd wedi dangos pwysigrwydd bod HCC yn yr un lle â phartneriaethau iechyd i helpu i ddylanwadu ar strategaethau bwyd yn y dyfodol.

d. *<u>Derbyn adborth ar Gynhadledd Flynyddol HCC 14 Tachwedd 2024</u>*

Dywedodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau wrth y Bwrdd fod adroddiad ffurfiol ar y Gynhadledd yn cael ei baratoi ac y bydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Ionawr 2025.

Bydd y Bwrdd yn aros am yr adborth ffurfiol, ond cytunodd fod cynnwys y digwyddiad yn rhagorol ar y cyfan a'i fod wedi'i drefnu a'i gyflwyno'n dda.

Diolchodd y Prif Weithredwr Dros Dro i'r Bwrdd am eu cyfraniad a'u cymorth yn ystod y Gynhadledd.

e. *<u>Derbyn adborth ar bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf 25-26 Tachwedd 2024</u>*

Diolchodd y Cadeirydd i staff HCC am eu hymdrech aruthrol i gyflwyno'r rhaglen ddigwyddiadau dros y ddau ddiwrnod. Cytunodd pawb iddo fod yn ddigwyddiad llwyddiannus dros ben.

Cafwyd trafodaeth ar bresenoldeb Brecwast HCC ar y dydd Llun. Cytunwyd i adolygu a diweddaru'r rhestrau gwesteion yn llawn ar gyfer y Gynhadledd, yn ogystal â'r brecwastau yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru/ y Ffair Aeaf.

**Cam Gweithredu: Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro**

f. *<u>Crynodeb Bwletin y Farchnad</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cafwyd trafodaeth ar y sefyllfa o ran prisiau cig eidion. Cytunwyd y byddai papur yn ddefnyddiol i roi dealltwriaeth lawn o'r sefyllfa a'r ffactorau sy'n effeithio ar y prisiau.

**Cam Gweithredu: Arweinydd ar ran Cynhyrchwyr a Phroseswyr**

g. *<u>Digwyddiadau ar y Gorwel</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

h. *<u>Ariannol – Cyfrifon Rheoli hyd at 31 Hydref 2024</u>*

Cafodd yr uchod ei ddarllen a'i grynhoi gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol.

*<u>Rheoli Risg – Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd</u>*
Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol yr uchod a chrynhoi'r cynnydd hyd yma.

Roedd camau 1 i 5 o'r adolygiad o fframwaith rheoli risg HCC wedi'u cwblhau. Bydd y cam terfynol yn ystyried y mecanweithiau gorau ar gyfer adrodd a chyflwyno yn y dyfodol.

Trafodwyd y papur yn fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Hydref. Rhoddwyd sylw penodol i feysydd lle mae'r risgiau presennol yn fwy nag

archwaeth risg HCC, gan gynnwys cadernid seilwaith TG, iechyd ariannol, cadw'r gweithlu, a pharatoi ar gyfer tarfu gweithredol. Cynigiwyd camau gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn, gyda dangosyddion mesuradwy i fonitro cynnydd.

Cynigiwyd bod y Fframwaith Sicrwydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol. Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r cynnig hwn.

i. *Diweddariad ar Gytundeb Fframwaith*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol grynodeb o'r pwyntiau perthnasol o ddrafft diweddaraf y ddogfen a'r meysydd a nodwyd ar gyfer eglurhad pellach a/neu sylwadau.

Cafwyd trafodaethau cadarnhaol gyda thîm Cyllid Llywodraeth Cymru ynghylch cronfeydd arian wrth gefn. Cytunwyd ar fethodoleg ddiwygiedig a fydd yn caniatáu i gronfeydd arian cyfredol gael eu cynnal fel cyfalaf gweithio, ac mae cyfyngiadau trothwy wedi'u cyfyngu i'r lefelau incwm alldro dros ben (6%) yn erbyn y gyllideb.

Bydd y drafft terfynol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Chwefror 2025 ar gyfer adolygiad manwl, a bydd papur cryno yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2025 ar gyfer y cytundeb terfynol.

j. *Diweddariad ar Aml-rywogaeth Cymru*

Cafodd y papur ei ddarllen a'i grynhoi gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol. Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi:

- Cafodd lansiad Beta 1 Aml-rywogaeth Cymru ei ohirio, oherwydd yr adnoddau a ddyrannwyd i ddatblygu Olyniaeth Defaid a BVD;
- Lansiwyd BVD ar 25 Tachwedd;
- Roedd cymorth diwedd oes yn y system ddefaid wedi cael ei ymestyn 12 mis;
- Roedd lansiad Aml-rywogaeth Cymru wedi cael ei ohirio dros dro tan fis Ionawr 2026;
- Dim risg tra bo Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (GSGP) – System Olrhain Gwartheg (CTS) yn dal yn fyw ar-lein (Lloegr)

## 9. Pwyllgorau HCC

Pwyllgor Archwilio a Risg

a. *Derbyn adroddiad llafar o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 31 Hydref 2024*

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor ar yr uchod. Y prif bwyntiau oedd;

- Archwiliad Allanol: Cynigiodd Archwilio Cymru gyhoeddi barn ddiamod ar gyfrifon 2023-24. Roedd dau argymhelliad, a oedd yn ymwneud â meddalwedd y system ariannol a chymeradwyo contractau a dogfennau, yn cael sylw gan y rheolwyr. Diolchodd Archwilio Cymru i dîm Cyllid HCC am eu cydweithrediad yn ystod yr archwiliad;
- Datganiadau ariannol drafft: wedi'u cynnwys ar agenda'r Bwrdd i'w cymeradwyo;
- Cynnydd Archwiliad Mewnol: roedd yr archwiliad cyntaf, Adolygiad o Systemau a Gweithdrefnau Cyfredol, wedi cael ei gwblhau. Roedd y tri adolygiad arall a oedd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni;

- Adroddiad yr Archwiliad Mewnol – Systemau a Phrosesau: edrychodd yr adolygiad ar dri maes rheoli – llywodraethu, rheolaethau ariannol a threfniadau TG. Nodwyd deunaw maes i'w gwella er mwyn gwella fframwaith rheoli HCC. Nodwyd nifer o feysydd o ymarfer da yn ystod yr adolygiad;
- Cynllun drafft Archwiliad Mewnol 2025–2026: roedd y cynllun yn cynnig cynnal llai o adolygiadau, ond ymdrin â meysydd yn fanylach. Cynigiwyd dwy broses busnes allweddol, Caffael a Diogelu Data, i'w hadolygu yn ystod 2025-26, a oedd yn cynnwys 24 diwrnod archwilio;
- Diweddariad ar reoli risg: dogfen fframwaith wedi'i thrafod yn fanwl ac wedi'i chynnwys ar agenda'r Bwrdd;
- Metrigau cydymffurfio mewnol: cafodd adroddiad cynhwysfawr ar gyfres gychwynnol o fetrigau cydymffurfio ei gyflwyno a'i nodi gan y Pwyllgor. Cytunwyd i gyflwyno'n flynyddol;
- Rhestr o Fuddiannau, Rhoddion a Lletygarwch: Roedd HCC yn dal i gydymffurfio i raddau helaeth â'r gofynion llywodraethu. Cymeradwywyd tri cham gweithredu i gynnal neu wella cydymffurfiad: gwaith dilynol ar ddatganiadau sy'n weddill ym mhob maes erbyn 30 Tachwedd 2024; adolygu a diweddaru polisïau ar derfynau rhoddion a lletygarwch erbyn 31 Mawrth 2025; hyfforddiant gloywi ar bolisïau gwrth-lwgrwobrwyo ar gyfer staff;
- Llywodraethu Gwybodaeth: Llwyddodd HCC i gadw ardystiad Cyber Essential Plus yn ystod 2024;
- Cyhoeddi Cofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio: papur wedi'i gyflwyno er gwybodaeth yn nodi egwyddorion ar gyfer cyhoeddi cyfarfodydd Bwrdd Sector Cyhoeddus Cymru a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Bydd y fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried.

b. *Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol 2023-24*

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol yr uchod. Roedd yr archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) wedi archwilio'r datganiadau ariannol drafft, a chyflwynwyd adroddiad archwilio diamod i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 31 Hydref 2024.

Tynnwyd sylw arbennig at adrannau trosolwg perfformiad a gweithgarwch yr adroddiad, a oedd yn cynnwys prif weithgareddau cyflawni HCC a'r gwaith rhagorol a gyflawnwyd.

Cymeradwyodd y Bwrdd y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Bydd y datganiadau ariannol sydd wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi yn cael eu gosod gerbron y Senedd a'u ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau erbyn y dyddiad cau, sef 31 Rhagfyr 2024. Byddant yn cael eu harddangos ar wefan HCC.

*Aelodaeth y Pwyllgor*

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch aelodaeth y Pwyllgor, a oedd wedi gostwng o bedwar aelod i dri aelod yn dilyn ymddiswyddiad aelod o'r Bwrdd ym mis Mehefin. Roedd y Pwyllgor wedi trafod y sefyllfa gyda Chadeirydd y Bwrdd a chynigiwyd penodi Caroline Sanger-Davies i'r Pwyllgor. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig.

## 10. Unrhyw fater arall

*Proses Recriwtio – Prif Swyddog Gweithredol*

Nodwyd bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi mynd heibio. Roedd nifer dda o geisiadau wedi dod i law. Cynhaliwyd cyfarfod panel didoli ddydd Llun 2 Rhagfyr, gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal ddydd Iau 12 Rhagfyr.

*Diweddariad ar Benodiadau'r Bwrdd*

Nodwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 13 Rhagfyr. Bydd y broses o lunio rhestr fer yn cael ei chynnal ym mis Ionawr, gyda'r cyfweliadau'n cael eu cynnal ym mis Ionawr/Chwefror.

*Gwobrau Menywod yn y Diwydiant Cig*

Nodwyd bod Leisia Tudor o Dunbia Group wedi ennill Gwobr Seren Newydd yn seremoni Gwobrau'r Diwydiant Rheoli Cig, a drefnwyd gan y cylchgrawn Meat Management. Mae Leisia yn aelod o'r Grŵp Ymchwil ac Arloesi Cynaliadwy ac yn un o gyn-weithwyr HCC. Aeth y Bwrdd ati i longyfarch Leisia ar ei llwyddiant.

Daeth y Cadeirydd a'r cyfarfod i ben drwy longyfarch y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau ar ei swydd newydd, gan ddymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

## 11. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

Cyfarfod y Bwrdd – Dydd Iau 9 Ionawr 2025
Grŵp Ymchwil ac Arloesi Cynaliadwy – Dydd Iau 15 Ionawr 2025
Diweddariad ar Dimau'r Bwrdd – Dydd Iau 6 Chwefror 2025 am 9.30am
Pwyllgor Archwilio a Risg – Dydd Iau 27 Chwefror 2025 am 10.00am
Cyfarfod y Bwrdd – Dydd Iau 6 Mawrth 2025 am 10:00am

## Sesiwn Gaeedig Bwrdd HCC

Yn dilyn y cyfarfod, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfod cyfrinachol ar wahân.

**Llofnod…………………………………. Cadeirydd HCC**